

## Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 27 Awst 2015

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin am 6pm

### Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

### Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd  
Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd  
Keith Morgan (KM)  
Chris Rankin (CR)  
Jillie Gardiner (JG)

### Cynghorwyr/Arsylwyr/Siaradwyr/Aelodau o'r Cyhoedd

Geoff Williams (GW) – Y Cerddwyr  
Phil Stone (PS) – Cyfoeth Naturiol Cymru

### Ymddiheuriadau (Aelodau)

Caroline Evans (CE)  
Alan Warner (AW) – aelod penodedig Cyngor Sir Caerfyrddin  
Eric Davies (ED)  
Becky Chunisingh (BC)  
Ed Percy (EP)

### Ymddiheuriadau (Cynghorwyr/Arsylwyr)

Y Cyng. Deryk Cundy

EITEM	GWEITH REDU
<b>Eitem 1 Croeso</b> – Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod.	
<b>Eitem 2 Ymddiheuriadau</b>  Derbyniwyd a chofnodwyd yr ymddiheuriadau.	
<b>Eitem 3 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2015</b>  Gwiriwyd y cofnodion a chawsant eu cymeradwyo yn amodol ar fân newidiadau.	
<b>Eitem 4 Materion a Godwyd o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2015</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Gorchmynion Rheoli Cŵn</b> – Nododd CR, ynghylch eitem 3, ei bod wedi codi'r mater rheoli cŵn o amgylch ceffylau.</li><li>• <b>Cyswllt â Chynghorau Tref/Cymuned</b> – dywedodd MH ei fod heb gael cyfle eto i fynd i gyfarfod a awgrymwyd gyda Chyngor Cymuned Trimsaran ond roedd yn gobeithio gwneud hynny yn y dyfodol.</li><li>• <b>Adroddiad Blynyddol</b> – roedd MH yn drafftio Adroddiad Blynyddol</li><li>• <b>Glastir</b> - dywedodd JT, yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin, ei fod wedi cyfarfod â Thaliadau Gwledig Cymru a chafodd ffurflen atgyfeirio i roi gwybod am faterion ynghylch rhwystrau gyda hawliau tramwy cyhoeddus ar dir o fewn Glastir, os oes angen. Mae'n bosibl y gall Taliadau Gwledig Cymru atal ad-daliadau o dan y cynllun hwn.</li></ul>	<b>MH</b>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>BOAT 58/14 (Caerfyrddin) RUPP 63/17 (Ceredigion)</b> – roedd MH wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Sir Ceredigion ynghylch y mater.</li> <li>• <b>Cysylltiad y Fforwm Mynediad Lleol â'r Cyngor</b> - dywedodd JT fod y Cyngorydd Deryk Cundy, a ddaeth i gyfarfod blaenorol y Fforwm Mynediad Lleol, fel Cadeirydd arsylwi y Pwyllgor Craffu - Cymunedau sy'n gyfrifol am hawliau tramwy, wedi cael ei ailbenodi a'i fod wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod heno a chyfarfodydd yn y dyfodol. Yn anffodus, roedd yn rhaid iddo ymddiheuro am heno ond roedd yn gobeithio dod i rai cyfarfodydd yn y dyfodol.</li> </ul>	
<p><b>Eitem 5 Gorchymyn Rheoli Cŵn/Diogelu Mannau Cyhoeddus – Diweddariad gan MH</b></p> <p>Nododd MH fod y Fforwm Mynediad Lleol wedi gwrthod dau argymhelliad ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu perthnasol yn y cyngor sy'n cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn bob amser ar gaeau chwaraeon, parciau a pharciau chwarae</li> <li>• Bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn bob amser ar briffyrdd cyhoeddus</li> </ul> <p>Mae MH wedi cael cadarnhad yn dilyn hynny gan Eifion Bowen, Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd, fod Bwrdd Gweithredol y Cyngor wedi penderfynu peidio â pharhau â'r ddau argymhelliad hynny ond y byddai'r prif gynigion canlynol yn bwrw ymlaen at ymgynghoriad statudol ffurfiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn ledled y sir yn gofyn i bobl lanhau ar ôl eu cŵn ar bob tir cyhoeddus.</li> <li>• Gorchymyn ledled y sir yn gofyn i bobl roi eu cŵn ar dennyn (ddim mwy na 2m o hyd) ar gais swyddog awdurdodedig, sy'n cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, swyddogion yr heddlu a/neu swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.</li> <li>• Gorchymyn yn gwahardd cŵn o ardaloedd chwarae plant amgaeedig.</li> </ul>	
<p><b>Eitem 6 Deddf Teithio Llesol 2013 – Y Diweddaraif</b></p> <p>Rhoddodd JT y wybodaeth ddiweddaraif yn seiliedig ar e-bost gan Simon Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Penododd Llywodraeth Cymru Sustrans i fapio llwybrau presennol. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau ac yna roedd yn rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin archwilio'r llwybrau hynny. Y nod yw cwblhau'r broses honno erbyn diwedd mis Medi ac yna bydd cyfnod ymgynghori lle caiff y Fforwm Mynediad Lleol ei wahodd i gyfrannu. Rhaid i'r map llwybrau presennol wedi'i gwblhau gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Ionawr 2016.</p>	
<p><b>Eitem 7 Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Gwella'r Cyfleoedd i Gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol - Ymgynghoriad</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Papur Gwyrdd gydag opsiynau eang am newidiadau yn y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 2 Hydref 2015. Dywedodd GW ei fod wedi bod i gyfarfod y Cerddwyr i drafod eu hymateb. Teimlodd MH nad oedd digon o ystyriaeth wedi bod ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol yn y ddogfen. Ni wnaeth KB ganfod llawer o bethau amlwg yn y ddogfen i wella'r sefyllfa i farchogwyr. Dywedodd JT fod y ddogfen ymgynghori</p>	

<p>wedi cyflwyno opsiynau amrywiol i'w hystyried a oedd yn amrywio o newidiadau gweithdrefnol i broses sydd eisoes yn bodoli i newid cyfanwerth radical mewn hawliau tramwy. Awgrymodd MH y gellid trafod hyn mewn cyfarfod ar wahân i aelodau sydd â diddordeb neu is-bwyllgor y byddai'n ei drefnu er mwyn gallu neilltuo digon o amser i drafod y ddogfen.</p>	<b>MH</b>
<p><b>Eitem 8 Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru: Datblygu Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy</b></p> <p>Cyflwynodd PS ymgynghoriad gan Gyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn ymwneud â diweddarau'r cyngor gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar hawliau tramwy. Awgrymodd MH y gellid hefyd trafod hyn yn y cyfarfod y cyfeiriwyd ato yn 9 uchod.</p>	
<p><b>Eitem 9 Big Pathwatch - Cyflwyniad</b></p> <p>Rhoddodd GW gyflwyniad ar brosiect Big Pathwatch y Cerddwyr. Nod y prosiect yw canfod cyflwr y rhwydwaith llwybrau drwy annog gwirfoddolwyr i arolygu gan ddefnyddio ap ffôn sy'n safoni'r arolwg a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr. Bydd y Cerddwyr yn casglu'r wybodaeth ac yn anfon adroddiadau at Awdurdodau Lleol. Bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio gan y Cerddwyr at ddibenion ymgyrchu i wneud yr achos am arian priodol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Diolchodd y Fforwm Mynediad Lleol i Geoff am gyflwyniad diddorol ac roedd rhai aelodau yn gobeithio cymryd rhan.</p>	
<p><b>Eitem 10 Mapio Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ar-lein - Arddangosiad Lleol-i</b></p> <p>Cyhoeddodd JT, fel Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin, fod mapio ar gyfer rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus nawr ar gael ar-lein drwy'r cyfleuster Lleol-i ar wefan y Cyngor a rhoddodd arddangosiad. Cytunodd MH y byddai hwn yn gyfleuster defnyddiol ac roedd am i ddiolchiadau'r Fforwm Mynediad Lleol gael eu cofnodi.</p>	
<p><b>Eitem 11 Rhaglenni Gweithiau Grant – y Diweddaraf</b></p> <p>Nid oedd Alan Warner, Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin, yn gallu dod i'r cyfarfod ond roedd wedi darparu adroddiad o'r gwaith/gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y rhwydwaith hawliau tramwy ar gyfer 2015-16. Darperir rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.</p>	<b>AW</b>
<p><b>Eitem 12 Gwasanaeth Archifau – y Diweddaraf</b></p> <p>Roedd KB wedi codi mater cau Archifau'r Sir ym Mharc Myrddin oherwydd bod llwydni yn niweidio rhai deunyddiau. Rhoddodd JT y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Sir Caerfyrddin a gafodd ei chyfnewid i'r fforwm. Mae contractwr arbenigol wedi tynnu'r dogfennau yr effeithiwyd arnynt ac yn eu glanhau. Yn anffodus, cafodd Parc Myrddin ei nodi yn anaddas ar gyfer y dogfennau sydd wedi'u glanhau ac mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer llety arall ar eu cyfer. Roedd gan KB ddiddordeb penodol gan ei fod yn effeithio ar fynediad i Fapiau Deddf Cyllid a dogfennau eraill oedd yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am hawliau tramwy cyhoeddus nad oedd wedi'u cofnodi.</p>	

<p><b>Eitem 13 Recriwtio</b></p> <p>Dyweddod JT y bu datganiadau o ddi-ddordeb diweddar mewn ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol ac anfonwyd tri pheccyn cais. Byddai unrhyw geisiadau a ddaw i law yn cael eu hanfon ymlaen at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i'w cymeradwyo/cyflwyno sylwadau a bydd darpar aelodau newydd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol i'r Fforwm Mynediad Lleol er mwyn gobeithio gallu cadarnhau eu haelodaeth.</p>	
<p><b>Eitem 14 Eitemau ar yr Agenda yn y Dyfodol - Trafodaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Papur Gwyrdd</li> <li>• Gorchmynion Rheoli Cŵn</li> <li>• Achos Cyfreithiol – Herrick v Cyngor Sir Gwlad yr Haf</li> </ul>	
<p><b>Eitem 15 Unrhyw Fater Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cynhadledd y Fforwm Mynediad Lleol</b> – Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Fforwm Mynediad Lleol a drefnwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 15 Medi 2015. Gobeithio y bydd diweddariad ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.</li> <li>• <b>Gorchmynion Gwyro Llwybr Cyhoeddus</b> - dywedodd MH fod Tîm Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori ag ef fel Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch Gorchmynion Lleol ac y byddai'n anfon unrhyw ymgynghoriadau o'r fath dros e-bost at aelodau'r Fforwm i roi sylwadau arnynt.</li> </ul>	<b>JT</b>
<p><b>Eitem 16 Dyddiad/Lleoliad Cyfarfodydd Nesaf</b></p> <p>Y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn, wedi'u trefnu am 6pm ddydd Iau yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin yw:</p> <p>19 Tachwedd 2015</p>	